

SL(6)753 – Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Cywiro Gwallau a Cheisiadau i Newid neu Ddirymu Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith) (Gweithdrefn) (Cymru) 2026

Cefndir a diben

Mae Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 ("Deddf 2024") yn sefydlu proses ymgeisio a chydsynio unedig i alluogi gwneud ac ystyried ceisiadau am gydsyniad seilwaith. Mae'r broses hon yn gymwys i brosiectau seilwaith arwyddocaol sydd wedi eu cynnwys yn Rhan 1 o Ddeddf 2024. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau ynni, trafnidiaeth, gwastraff a dŵr.

Mae Rhan 6 o Ddeddf 2024 yn gwneud darpariaeth ynghylch gorchmynion cydsyniad seilwaith ac mae'n cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru:

- gywiro gwallau mewn dogfen penderfyniad, a
- thrwy orchymyn, newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn ar gyfer cywiro gwall mewn dogfen benderfyniad ac ynghylch y weithdrefn mewn perthynas â cheisiadau i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith.

Gweithdrefn

Gweithdrefn annilysu'r Senedd.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd annilysu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y 17 o bwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.

Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o "person ychwanegol a chanddo fuddiant", mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, ym mharagraff (b) o'r diffiniad hwnnw, cyfeirir at reoliad "20(3)" ond mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at reoliad "20".



2. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.

Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o “ymgynghorai arbenigol gwreiddiol”, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a’r testun Saesneg. Mae’r testun Saesneg yn dweud “the **relevant** infrastructure consent order” ond mae’r testun Cymraeg yn dweud “gorchymyn cydsyniad seilwaith”, gan hepgor y gair “perthnasol”. Mae’r gwahaniaeth hwn yn fwy arwyddocaol oherwydd bod “y gorchymyn cydsyniad seilwaith perthnasol” yn derm sydd wedi’i ddiffinio yn y Rheoliadau hyn. Mae’r un gwahaniaeth hefyd yn digwydd yn rheoliad 61(2)(a) o’r Rheoliadau hyn.

3. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â’i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o “awdurdod cynllunio”, mae’r testun Cymraeg yn nodi mai ystyr y term hwnnw yw’r awdurdod cynllunio lleol o fewn yr ystyr a roddir i “**planning authority**” gan Ran 1 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Fodd bynnag, dylai nodi mai ystyr y term hwnnw yw awdurdod cynllunio lleol o fewn yr ystyr a roddir i “**local planning authority**”, sef y term a ddiffinnir gan Ran 1 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (gweler adran 336(1) o’r Ddeddf honno). Ymddengys hefyd ei fod yn anghyson â’r diffiniad o “awdurdod cynllunio” yn nhestun Cymraeg rheoliad 2(1) o O.S. 2025/690 (Cy. 114) ac O.S. 2025/692 (Cy. 116).

4. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.

Yn rheoliad 3(1)(d), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a’r testun Saesneg. Mae’r testun Saesneg yn dweud “where the Welsh Ministers have received **a request** in writing” a “the person who made **the request**”. Ond mae’r testun Cymraeg yn dweud “pan fo **cais** ysgrifenedig... wedi dod i law Gweinidogion Cymru” ac “y person a wnaeth **y cais**”. Mae hyn yn arwyddocaol oherwydd bod y term “cais” a ddefnyddir i fynegi ystyr y term Saesneg “request” yn rheoliad 3(1)(d) wedi’i ddiffinio yn y Rheoliadau hyn, a’r ystyr a roddir iddo yn y diffiniad hwnnw yw “application”. Mewn mannau eraill, defnyddir y geiriau “archiad” neu “gofyn” i fynegi ystyr “request” yn y Rheoliadau hyn. Mae’r un gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a’r testun Saesneg yn digwydd yn rheoliad 31(1)(a).

5. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â’i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn rheoliad 4(4), diffinnir y term “hysbysiad penderfyniad cywiro gwallau” ar gyfer rheoliad 4 ac mae hefyd wedi’i ddiffinio’n rhagweithredol ar gyfer rheoliad 5. Fodd bynnag, nid oes cyfeiriad at y diffiniad hwnnw yn rheoliad 5 i nodi bod i’r term yr un ystyr ag a roddir gan rheoliad 4(4) o’r Rheoliadau hyn. Felly, mae’n bosibl na fydd y darlennydd yn ymwybodol bod y diffiniad hwnnw’n gymwys i rheoliad 5. Mae’n fwy defnyddiol i’r darlennydd os caiff y diffiniad ei ailadrodd neu os cyfeirir ato yn yr ail ddarpariaeth pan ddefnyddir diffiniadau



rhagweithredol, neu os caiff y term ei ddiffinio ar gyfer y Rheoliadau cyfan. Mae'r un peth hefyd yn digwydd yn rheoliadau 41(11) a 57(3) o'r Rheoliadau hyn.

6. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddifffgiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

Mae rheoliad 12(3) yn cyfeirio at "hysbysiad o dan baragraff (1)..." o reoliad 12. Fodd bynnag, ymddengys y dylai gyfeirio at "hysbysiad o dan baragraff (2)..." o'r rheoliad hwnnw.

7. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn rheoliad 17(3), diffinnir y term "tir categori arbennig" ar gyfer rheoliad 17 drwy gyfeirio at ymadroddion eraill gan gynnwys "tir comin", "man agored" a "rhandir tanwydd neu ardd gae". Fodd bynnag, mae'r ymadroddion hyn i gyd yn dermau diffiniedig yn adran 70(9) o Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024. A all Llywodraeth Cymru gadarnhau a fwriedir iddynt fod â'r un ystyr ag a roddir gan adran 70(9) o Ddeddf 2024? Os felly, dylid diffinio pob un ohonynt â'r un ystyr hwnnw yn rheoliad 17(3) o'r Rheoliadau hyn.

8. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn rheoliad 20(2), mae is-baragraffau (a) i (c) wedi'u cysylltu â chymysgedd o gysyllteiriau - "a" rhwng is-baragraffau (a) a (b), a "neu" rhwng is-baragraffau (b) ac (c). Ni ddylid defnyddio cymysgedd o gysyllteiriau gwahanol yn yr un rhestr o baragraffau neu is-baragraffau oherwydd gall hynny greu amwysedd ynghylch y berthynas rhwng y paragraffau neu'r is-baragraffau yn y rhestr honno, e.e. (a) a (b)/ neu (c), (a) a/ (b) neu (c).

9. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddifffgiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

Mae rheoliad 22(1)(a) yn cyfeirio'n anghywir at "rheoliad 11(a), (b), (d) i (g) a (j)". Dylai gyfeirio yn hytrach at "rheoliad 11(1)(a), (b), (d) i (g) a (j)" oherwydd bod rheoliad 11 wedi'i rannu'n baragraffau wedi'u rhifo lle ceir yr is-baragraffau hynny.

10. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Mae rheoliad 24 yn nodi bod Rhan 4 yn gymwys pan fo "Gweinidogion Cymru yn penodi person neu banel o bersonau i archwilio cais o dan adran 40(2) o Ddeddf 2024". Fodd bynnag, ymddengys fod yr ymadrodd hwn bron yn union yr un fath â'r ystyr a roddir i'r term diffiniedig "awdurdod archwilio" a ddefnyddir hefyd yn Rhan 4 ac yn Rhannau eraill y Rheoliadau hyn. A all Llywodraeth Cymru esbonio a yw ystyr yr ymadrodd hwn yn wahanol i ystyr "awdurdod archwilio", ac os nad yw, pam nad yw'r term diffiniedig wedi'i ddefnyddio yn rheoliad 24?

11. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.



Yn rheoliad 25(1), diffinnir y term "cyfnod ar gyfer sylwadau" fel y cyfnod ar gyfer sylwadau ar ôl gwneud cais mewn cysylltiad â chais penodol. Felly, ymddengys fod iddo'r un ystyr â'r term "cyfnod ar gyfer sylwadau ar ôl gwneud cais" a ddiffiniwyd eisoes ac a ddefnyddir mewn Rhannau eraill o'r Rheoliadau hyn. A all Llywodraeth Cymru gadarnhau bod yr un ystyr i'r ddau derm? Os felly, a yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod defnyddio termau diffiniedig gwahanol sydd â'r un ystyr mewn gwahanol Rannau o'r Rheoliadau hyn yn ddryslyd i'r darllenydd?

12. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn rheoliad 25(1), diffinnir y term "sylwadau ysgrifenedig" gydag ystyr ar gyfer Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, defnyddir y term hefyd yn rheoliadau 60 a 67 yn Rhan 6 o'r Rheoliadau hyn. A all Llywodraeth Cymru gadarnhau a fwriedir i'r term fod â'r un ystyr yn y rheoliadau hynny yn Rhan 6 ai peidio? Os felly, ni fydd iddo'r un ystyr oherwydd mai dim ond at ddibenion Rhan 4 y mae'r term wedi'i ddiffinio.

13. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn rheoliad 25(3), diffinnir "sylwadau pellach" fel "sylwadau llafar neu ysgrifenedig yn ychwanegol at sylwadau ysgrifenedig cychwynnol". Fodd bynnag, mae "sylwadau ysgrifenedig pellach" yn derm diffiniedig yn rheoliad 25(1) ar gyfer Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn. A all Llywodraeth Cymru egluro a ddylid nodi'r term diffiniedig "sylwadau ysgrifenedig pellach" yn y diffiniad o "sylwadau pellach" neu a oes ystyr gwahanol i "sylwadau... ysgrifenedig yn ychwanegol at"?

14. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.

Yn rheoliad 36(7), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Mae'r testun Saesneg yn dweud "(except in paragraph (2)(b))" ond mae'r geiriau hyn ar goll yn y testun Cymraeg. Yn ogystal, nid yw'n glir ble mae rheoliad 36(7) yn gymwys oherwydd nid yw'n nodi "Yn y rheoliad hwn" ac mae "y tir perthnasol" yn derm diffiniedig a ddefnyddir mewn rheoliadau eraill megis rheoliadau 9, 25 a 62 o'r Rheoliadau hyn.

15. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.

Yn rheoliadau 51(6)(a) a 52(7)(a), mae anghysondeb yn y testun Cymraeg wrth fynegi ystyr y gair Saesneg "may" yn yr un cyd-destun, lle mae'r testun Saesneg yn dweud, yn y ddau le, "the examining authority must notify the interested parties... that they may require the hearing or local inquiry to be re-opened". Yn y testun Cymraeg, mae rheoliad 51(6)(a) yn dweud "y gallant ei gwneud yn ofynnol i'r gwrandawriad neu'r ymchwiliad lleol gael ei ailagor", sydd ddim ond yn awgrymu posibilrwydd. Ond mae rheoliad 52(7) yn dweud "y cânt ei gwneud yn ofynnol i'r gwrandawriad neu'r ymchwiliad lleol gael ei ailagor", sy'n



awgrymu y rhoddir caniatâd neu bŵer yn ôl disgresiwn i'r partïon a chanddynt fuddiant i'w gwneud yn ofynnol ailagor gwrandawriad yr ymchwiliad lleol. Yn yr un modd, yn rheoliad 37(2), defnyddir "gall" lle mae'r cyd-destun yn awgrymu mai "caiff" sy'n gywir.

16. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.

Yn yr Atodlen, yng Ngholofn 2, ym mharagraff (b), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Mae'r testun Saesneg yn dweud "entering **of** leaving a trunk road" ond mae'r testun Cymraeg yn dweud "ymuno â chefnffordd **neu** n ymadael â chefnffordd".

17. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn yr Atodlen, yn "Dehongli'r Tabl", ym mharagraff (a), diffinnir y termau "rhwydwaith", a "gweithredwr" gan nodi bod iddynt yr un ystyr ag a roddir i "network" ac "operator" yn adran 83(1) o Ddeddf Rheilffyrdd 1993 ar gyfer paragraff (b) o'r Tabl. Fodd bynnag, diffinnir y term "railway" hefyd yn adran 81 o Ddeddf Rheilffyrdd 1993 a defnyddir y term hwnnw hefyd ym mharagraff (b) o'r Tabl. A all Llywodraeth Cymru egluro a fwriedir i "rheilffordd" fod â'r un ystyr ym mharagraff (b) o'r Tabl ag a roddir i "railway" yn Neddf Rheilffyrdd 1993? Os felly, dylid diffinio'r term hwnnw hefyd ym mharagraff (a) o "Dehongli'r Tabl". Yn ogystal, defnyddir y termau "rhwydwaith", "gweithredwr" a "rheilffordd" ym mharagraff (q) o'r Tabl. Felly, a all Llywodraeth Cymru hefyd egluro a fwriedir i'r termau hynny fod â'r un ystyr ag a roddir i'r termau Saesneg cyfatebol gan Ddeddf Rheilffyrdd 1993 ym mharagraff (q) o'r Tabl, gan nad oes darpariaeth ddiffinio ar gyfer y paragraff hwnnw?

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth 2026 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

